# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Heddwch a Chymod** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19/05/2025 |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Enw:** |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor (Cadeirydd) | Jane Harries |
| Hayley Richards | Bethan Sian Jones |
| Sam Bannon | Iestyn Davies |
| Brian Jones | Elin Hywel |
| Andy Stirling | Gwyn Williams |
| Sioned Williams | |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Mererid Hopwood | |

| | |
|---|---|
| Jill Evans | |
| Richard Outram | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croesawodd MaG yr Aelodau i'r cyfarfod.

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:

Bydd AHC yn gwahodd rhywun o'r Weinyddiaeth Amddiffyn / Sefydliad Iechyd y Byd i ddod i'r Grŵp Trawsbleidiol nesaf i drafod effeithiau gallu radar uwch y gofod (DARC) ar iechyd

Mae Colin McInnes wedi ysgrifennu ar ran y Grŵp ond dim ond yn ddiweddar y derbyniodd ymateb gan Ganolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd Awstralia. Bydd Colin yn cyfarfod â chynrychiolwyr ym mis Mehefin a bydd yn rhoi adborth i'r Grŵp.

CAM GWEITHREDU: Bydd MaG yn ysgrifennu at Uned Asesu Effaith Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru i ofyn pa asesiad sydd wedi'i wneud mewn perthynas â DARC ac am eu hymateb i'r datblygiad

Ymatebodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r llythyr hwn gan roi rhywfaint o wybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer eu cymar ar lefel y DU a fyddai'n gyfrifol am ddatblygiad DARC. Mae llythyr wedi cael ei anfon atyn nhw ac rydym yn aros am ymateb.

CAM GWEITHREDU: Bydd MaG yn ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am fanylion unrhyw Asesiad o Effaith Amgylcheddol mewn perthynas â DARC a sut i gael mynediad at hyn

Cawsom ymateb i'r llythyr hwn yn cynghori y dylem gysylltu ag Awdurdod Cynllunio Sir Benfro i gael rhagor o wybodaeth.

CAM GWEITHREDU: Bydd MaG yn ysgrifennu at Awdurdod Cynllunio Sir Benfro ar ran y Grŵp.

Croesawodd MaG yr Athro Andy Stirling, Athro Polisi Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Uned Ymchwil Polisi Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Sussex, i'r cyfarfod. Rhoddodd Andy gyflwyniad i'r Grŵp ar orsafoedd pŵer niwclear sifil a rhaglenni arfau niwclear y DU: cysylltiadau a goblygiadau i Gymru.

Mae Grŵp Ynni Sussex yn y Brifysgol wedi bod yn ymchwilio i bolisi niwclear ers dros 50 mlynedd. Mae Andy a'i gydweithiwr Phil Johnstone yn edrych ar gysylltiadau diwydiannol (cadwyni cyflenwi/ymchwil/hyfforddiant) rhwng seilwaith sifil a seilwaith niwclear milwrol. Mae eu gwaith wedi cael ei gyhoeddi mewn papurau a adolygir gan gymheiriaid, mewn pwyllgorau seneddol ac mae rhywfaint o waith wedi cael ei ariannu gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Byddai pŵer niwclear sifil wedi darfod (o blaid ynni adnewyddadwy) oni bai am yr ymrwymiadau sy'n weddill i roi cymhorthdal i alluoedd milwrol. Mae'n amlwg, wrth gymharu ynni adnewyddadwy â niwclear, fod ynni adnewyddadwy 100 y cant yn fwy ffafriol na niwclear o ran costau ac mewn termau eraill.

Mae costau gwirioneddol milwrol/amddiffyn wedi'u cuddio y tu ôl i raglenni sifil. Mae hyn yn amlwg mewn llenyddiaeth polisi milwrol/amddiffyn ac yn strategaeth ddatganedig y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'n haws cuddio gweithgareddau awyrofod na gweithgareddau niwclear. Mae costau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ddadleuol iawn, ond dim ond rhan o'r gost wirioneddol y maent yn ei chynrychioli oherwydd bod y diwydiant sifil yn cuddio costau (cadwyni cyflenwi/hyfforddiant), sy'n cadw cwmnïau fel Babcock, BAE, Rolls Royce ar waith. Mae trosglwyddiad net o sifil i filwrol e.e. yn yr Unol Daleithiau, mae wedi'i gyfrifo fel $266 biliwn y flwyddyn. Heb niwclear sifil, nid yw niwclear morol yn gynaliadwy – gwnaed hyn yn glir gan Macron yn Ffrainc. Mae Adran Ynni Llywodraeth y DU yn gwadu'r cysylltiad hwn ond mae llawer o gyfeiriadau at groesgysylltiadau yn y Map Ffordd Niwclear Sifil. Amcangyfrif ceidwadol o'r llif net o sifil i filwrol yn y DU yw £5 biliwn y flwyddyn.

Diolchodd MaG i AS am ei gyflwyniad.

Gofynnodd BJ am yr adweithyddion niwclear modiwlaidd bach 20MW Last Energy a gynlluniwyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a bod cyflenwad NATO wedi cael ei grybwyll mewn dogfennau i'r wasg.

Dywedodd AS mai'r brif broblem yw gwireddu arbedion o ran costau i gwmnïau. Sut gall y dechnoleg hon fod yn gystadleuol? Nid yw'n gredadwy.

Gofynnodd HR am yr effaith ar allyriadau carbon.

Gweithiodd AS gydag academyddion eraill i ymchwilio i dystiolaeth ar gyfer hyn ac mae wedi'i chyhoeddi yn **Nature Energy**. Edrychon nhw ar setiau data byd-eang o allyriadau carbon cenedlaethol a chynhyrchu trydan adnewyddadwy a niwclear ar draws 123 o wledydd dros 25 mlynedd i archwilio patrymau'n systematig yn y ffordd y mae gwledydd sy'n defnyddio pŵer niwclear ac ynni adnewyddadwy yn wahanol yn dangos allyriadau carbon uwch neu is. Fe

wnaethon nhw ganfod nad yw atodiadau niwclear cenedlaethol ar raddfa fwy yn tueddu i gysylltu ag allyriadau carbon sylweddol is, tra bod ynni adnewyddadwy yn gwneud hynny. Gofynnodd chwe thîm niwclear mawr i Nature **dynnu'r papur yn ôl**.

Mae yna drafodaeth wleidyddol sy'n camliwio opsiynau ar gostau, perfformiad ac arbedion o ran carbon. Yn yr un modd, o ran swyddi – nid oes uned gymharu ar gyfer uned cynhyrchu ynni.

Gofynnodd SB pa mor dda mae seneddwyr yn deall y cysylltiad hwn.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf –** i'w gadarnhau